Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl269

**Amseru:**

**Teitl: Cyfraniad grant Eiriolwr Dioddefwyr Ffyrdd Annibynnol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Gwasanaeth Dioddefwyr Ffyrdd Cenedlaethol Brake yw'r **darparwr cymorth arweiniol mwyaf ar gyfer dioddefwyr ffyrdd yn y DU**. Mae ganddo hanes 20 mlynedd o ddarpariaeth gwasanaeth dioddefwyr ffyrdd achrededig, gan ddefnyddio'r **model gofal sefydledig ar sail tystiolaeth**, sef gofal a reolir yn ôl achos.

**Nid llinell gymorth yw'r ddarpariaeth hon - gofal a reolir yn ôl achos** o'r diwrnod cyntaf ydyw am cyn hired ag sydd angen (weithiau dros flwyddyn) cyn ymadael yn ddiogel. Darperir gofal drwy bennu **gweithiwr achos enwebedig, hyfforddedig, cyflogedig** i ddioddefydd. Cysylltodd BRAKE â'r CHTh â chynnig i ariannu Eiriolydd Dioddefwyr Ffyrdd Annibynnol penodol ar gyfer Dyfed-Powys am gyfnod o 12 mis, gan weithio'n uniongyrchol â Heddlu Dyfed-Powys o ran cyfeirio dioddefwyr. Mae'r cynnig yn bodloni blaenoriaeth 1 y Cynllun Heddlu a Throseddu, sef sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi, yn uniongyrchol.

Mae'r CHTh wedi awgrymu rhoi £39,680.45 tuag at y prosiect o'r gyllideb cronfa wrth gefn Ailhyfforddi Gyrwyr am gyfnod o 12 mis. Bydd y prosiect yn cael ei fonitro ar sail chwarterol yn ystod y cyfnod hwn er mwyn gwerthuso llwyddiant a chynnydd.

**Argymhelliad:**
**Argymhellir bod grant yn cael ei roi i BRAKE am gyfnod o 12 mis ar gyfer y swm o £39,680.45 o'r gyllideb cronfa wrth gefn Ailhyfforddi Gyrwyr.**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 28/06/2022**